## Rhestr gyfeirio: Adnoddau addysg rhyw a pherthnasoedd

Mae ystod eang o ddeunyddiau addysgu at ARhPh wedi'u cynhyrchu'n genedlaethol ac yn lleol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, cwmnïau masnachol, awdurdodau lleol, asiantaethau yn y sector gwirfoddol a chyrff crefyddol megis awdurdodau addysg yr esgobaethau.

Mae'r rhestr hon i'w defnyddio'n bennaf gan y cydlynydd sy'n gyfrifol am gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth ARhPh. Mae wedi'i dylunio i helpu'r ysgolion wrth gynllunio'u cwricwlwm ARhPh ac wrth ddethol deunyddiau addysgu a all gael eu defnyddio i ychwanegu at ei gweithgareddau a'u hadnoddau eu hunain.

| **Meini Prawf** | ***Wedi'i gwblhau'n llwyr*** | ***Wedi'i gwblhau'n rhannol*** | ***Heb wedi'i gwblhau*** |
|---|---|---|---|
| Mae'r adnoddau ARhPh yn gyson â'r gwerthoedd a nodwyd ym mholisi'r ysgol ar addysg rhyw. | | | |
| Mae ystod o adnoddau ARhPh yn cael eu defnyddio sy'n briodol ar gyfer oed, gallu ac aeddfedrwydd y dysgwyr. | | | |
| Mae barn y dysgwyr yn cael ei chymryd i ystyriaeth ynghylch yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio i gyflwyno ARhPh ac mae camau'n cael eu cymryd ynglŷn â'u hadborth. | | | |
| Mae'r adnoddau ARhPh yn gynhwysol o safbwynt y cartref ac amgylchiadau'r teulu, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, diwylliant ac anabledd. | | | |
| Mae'r adnoddau ARhPh yn dangos patrymau ymddygiad cadarnhaol i fechgyn a merched gan osgoi stereoteipiau rhyw. | | | |
| Mae'r adnoddau ARhPh yn hybu ymagwedd sydd wedi'i seilio ar sgiliau a dulliau dysgu gweithgar. | | | |
| Mae'r adnoddau ARhPh yn ffeithiol gywir ac yn cynnig golwg gytbwys ar faterion a allai fod yn sensitif. | | | |
| Mae'r adnoddau ARhPh yn gyfoes o ran realiti bywydau plant a phobl ifanc. | | | |
| Mae'r holl staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen ARhPh yn cael hyfforddiant a chymorth priodol i ddefnyddio'r adnoddau'n hyderus. | | | |
| Mae amrywiaeth o fathau o adnoddau'n cael eu defnyddio ar draws y rhaglen ARhPh, gan gynnwys DVD, gweledol, gemau, a modelau. | | | |
| Mae trefniadau ar gael i roi gwybod i rieni/gwarcheidwaid am y deunyddiau addysgu ARhPh sy'n cael eu defnyddio a'u gweld, ond iddyn nhw wneud cais. | | | |
| Mae'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio gan asiantaethau allanol yn cael eu hadolygu ac maen nhw'n cydymffurfio â pholisi'r ysgol ar addysg rhyw. | | | |

**Y Camau Nesaf:**

**Wedi'u cymryd gan:** **Dyddiad:**